Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais grant	Lleoliad yng Nghymru	Gwlad yn Affrica	Thema
Bawso	Ein nod yw chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddifa ymdrechion i anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn ardal Sebei, Uganda. Byddwn yn gweithio gyda Phrosiect Grymuso Cymuned Sebei yn Uganda i gynnal sesiynau a meithrin cynghreiriau drwy ysgolion a'r gymuned. Yr effaith fydd 55% yn llai o achosion FGM o fewn 10 mlynedd.	£26,629.00	Caerdydd, Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam	Uganda	Dysgu Gydol Oes
Bees for Development	Bydd y prosiect yn grymuso menywod Uganda sy'n byw mewn tlodi a chydag ychydig iawn o gyfleoedd i ennill incwm drwy eu hyfforddi ar gadw gwenyn a datblygu'r farchnad. Bydd y cyllid yn unioni'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y maes cadw gwenyn ac yn rhoi'r hyder a'r cyfle i fenywod gymryd rheolaeth a gwella'u bywydau drwy fentrau cadw gwenyn.	£30,000.00	Sir Fynwy	Uganda	Bywoliaethau Cynaliadwy
Care for Uganda	Byddwn yn cefnogi 8 grŵp gwledig o fenywod a ddechreuodd y grwpiau eu hunain yn Rhanbarth Luwero – a fydd yn hybu eu bywoliaethau a'u hymreolaeth ariannol. Byddwn hefyd yn darparu cyngor ar hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth ynghylch materion rhywedd allweddol sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys hawliau cyfreithiol menywod a theuluoedd, mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, rheoli mislif ac arweinyddiaeth gymunedol.	£29,750.00	Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Bro Morgannwg	Uganda	Bywoliaethau Cynaliadwy

GBV Uganda Projects	Hyfforddi a pharatoi 40 o fenywod i drin gwallt a darparu offer ar gyfer salon yn y ganolfan hyfforddiant er mwyn creu cynaliadwyedd ariannol. Hyfforddi a pharatoi 20 o fenywod; 14 i weithio yn y gymuned a 6 yn y ganolfan hyfforddi i wneud crefftau. Hyfforddi a pharatoi 50 o fuddiolwyr o fewn dwy gymuned i gadw gwenyn.	£20,000.00	Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Abertawe, Torfaen, Wrecsam	Uganda	Dysgu Gydol Oes
Maint Cymru	Bydd y prosiect hwn yn grymuso menywod yn Uganda i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. 1. Hyfforddiant mewn cynllunio defnydd o dir, amaeth-goedwigaeth, a chadwraeth pridd/dŵr. 2. Bydd gan fenywod fwy o wybodaeth a phŵer cryfach i wneud penderfyniadau 3. Hyrwyddo cyfleoedd a thechnolegau bywoliaeth newydd sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd. 4. Bydd arferion gorau a'r gwersi a ddysgir yn cael eu cofnodi a storïau ysbrydoledig yn cael eu rhannu yng Nghymru.	£30,000.00	Pobman	Uganda	Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd
Teams4U The Charity	I atal 28% o ferched sydd mewn perygl rhag bod yn absennol a thynnu allan o'r ysgol. Trwy gyflwyno gwersi ar iechyd atgenhedlol a rhywiol (SRHR) a hawliau menywod, unwaith yr wythnos i 10,000 o fyfyrwyr mewn 10 ysgol. I hyfforddi 40 o athrawon, 30+ o randdeiliaid, 1000+ o rieni ar bynciau perthnasol. Gwella Rheoli Hylendid Mislif (MHM), gan ddosbarthu padiau mislif ailddefnyddiadwy, a fydd yn creu ysgolion sy'n ystyriol o'r mislif.	£25,000.00	Wrecsam	Uganda	Iechyd